

General
Pharmaceutical
Council

Ymgynghoriad ar feini prawf trothwy diwygiedig

Rhagfyr 2016



Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) am ddim ac mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod wedi ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd hwn fel hawlfraint y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydym wedi dyfynnu deunydd gan drydydd parti, rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni yn **communications@pharmacyregulation.org** os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print mwy neu mewn iaith wahanol).

Cynnwys

Cynnwys	4
Ynglŷn â'r CFFC.....	5
Trosolwg	6
Y broses ymgynghori.....	7
Cefndir: cymhwyster i ymarfer ac ymchwiliadau	8
Pam ein bod yn adolygu'r meini prawf trothwy	9
Newidiadau allweddol	10
Meini prawf trothwy diwygiedig drafft.....	12
Sut y byddwn yn defnyddio eich ymatebion	14
Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad	15
Cwestiynau'r ymgynghoriad	18
Eglurwch pam.....	18
Monitro cydraddoldeb	20
Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad wedi'u coladu	22

Y dyddiad terfyn ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad hwn yw **Dydd Llun 6**

Mawrth 2017



Ynglŷn â'r CFfC

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) yw'r rheoleiddiwr ar gyfer fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig yn Lloegr, Yr Alban a Chymru. Ein gwaith yw diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles aelodau'r cyhoedd drwy gynnal safonau ac ymddiriedaeth y cyhoedd mewn fferylliaeth.

Mae ein prif waith yn cynnwys:

- gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr, technegwyr fferyllol a chymeradwyo ac achredu eu cymwysterau a'u hyfforddiant
- cadw cofrestr o fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd
- gosod y safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol eu bodloni drwy gydol eu gyrfa
- ymchwilio pryderon nad yw gweithwyr proffesiynol fferyllol yn bodloni ein safonau, a gweithredu i gyfyngu ar eu gallu i ymarfer pan fod hyn yn angenrheidiol er mwyn diogelu cleifion a'r cyhoedd
- gosod safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig sy'n ei gwneud hi'n ofynnol iddynt ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion
- cynnal arolygiadau ar fferyllfeydd er mwyn gwirio eu bod yn bodloni ein safonau

Trosolwg

Fel y rheoleiddiwr, ein prif rôl yw diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd a diogelwch pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gan weithwyr fferyllol proffesiynol neu gan fferyllfeydd cofrestredig. Mae hyn yn cynnwys cadw cofrestr o fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol, a gwneud yn siŵr bod pobl sydd ar y gofrestr yn gymwys i barhau arni.

Mae gennym y grym i ymchwilio pryderon ynglŷn â fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol. Unwaith y byddwn yn eu derbyn, byddwn yn adolygu'n ofalus ac yn asesu pob pryder a gaiff ei godi gyda ni, ac yna byddwn yn ystyried a oes angen i ni ddechrau ymchwiliad. Os yw'r pryder yn rhywbeth y gallwn ei drin gan ddefnyddio ein pwerau ein hunain, byddwn yn cynnal ymchwiliad. Unwaith y byddwn wedi gorffen ein hymholiadau, byddwn yn penderfynu a ddylid atgyfeirio'r achos i'r pwyllgor ymchwilio neu a oes canlyniad arall yn briodol yn yr amgylchiadau. Fel un rhan o'r broses gwneud penderfyniadau hyn rydym yn defnyddio 'meini prawf trothwy'.

Mae Gorchymyn Fferylliaeth 2010 yn caniatáu i ni gael meini prawf trothwy, sy'n ein cynorthwyo i benderfynu a ddylid atgyfeirio achos i'r pwyllgor ymchwilio. Fe'u defnyddir gan wneuthurwyr penderfyniadau yn y CFC sy'n rhan o'r gwaith o ymchwilio pryderon. Mae'r meini prawf hyn yn rhoi fframwaith i ni wneud yn siŵr ein bod yn gwneud penderfyniadau cymesur, teg a chyson ym mhob ymchwiliad.

Mae'r meini prawf presennol wedi bod yn weithredol ers 2010. Rydym nawr yn ymgynghori ar feini prawf diwygiedig er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn addas at y diben ac

yn ystyried newidiadau diweddar mewn rheoleiddiad fferyllol. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys y safonau newydd ar gyfer gweithwyr fferyllol a gyflwynir yn 2017. Mae hefyd yn rhan o'n hadolygiad ehangach o'n holl ganllawiau gwneud penderfyniadau statudol.

Bydd y meini prawf trothwy diwygiedig, ynghyd â chanllawiau eraill a gyhoeddir gennym, yn mynd rhywfaint o'r ffordd i wneud yn siŵr bod y penderfyniadau a wneir drwy ein holl weithdrefnau cymhwyster i ymarfer mor dryloyw a dealladwy â phosibl.

Rydym hefyd eisiau gwneud yn siŵr bod y meini prawf trothwy diwygiedig yn hygyrch ac yn hawdd eu deall gan ystod eang o randdeiliaid, nid dim ond y bobl sy'n eu defnyddio fel rhan o'u gwaith. Mae hyn yn cynnwys unrhyw un sydd wedi mynegi pryder, neu sydd wedi cael pryder wedi'i fynegi amdanynt. Efallai y bydd y meini prawf hefyd yn ddefnyddiol i bartïon eraill sydd â diddordeb, megis aelodau o'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau fferyllol, cofrestredigion a chynrychiolwyr cofrestredigion.

Mae dwy brif adran i'r ddogfen ymgynghori hon:

- Cefndir: cymhwyster i ymarfer ac ymchwiliadau: Yma eglurir beth a olygwn gan 'gymhwyster i ymarfer' ac mae'n disgrifio'n fyr ein gweithdrefn ymchwilio, er mwyn cynorthwyo i roi'r meini prawf trothwy diwygiedig mewn cyd-destun.
- Pam ein bod yn adolygu'r meini prawf a'r canllaw hwn: Yma eglurir beth a gwmpesir gan ein meini prawf trothwy diwygiedig ac ar gyfer beth mae nhw.

Y broses ymgynghori

Cynhelir yr ymgynghoriad am 12 wythnos a bydd yn cau ar **Ddydd Mawrth, 7 Mawrth 2017**. Yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn croesawu adborth gan unigolion a sefydliadau. Byddwn yn anfon y ddogfen hon at ystod o sefydliadau sy'n rhanddeiliaid, yn cynnwys cyrff cynrychioliadol proffesiynol, cyflogwyr, darparwyr addysg a hyfforddiant a chyrrff cynrychioli cleifion.

Mae rhagor o gopiau o'r ddogfen hon i'w cael ar ein gwefan yn www.pharmacyregulation.org/thresholdconsultation neu gallwch gysylltu â ni os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat arall (er enghraifft, mewn print mwy neu mewn iaith wahanol).

Ein hadroddiad ar yr ymgynghoriad hwn

Unwaith y bydd y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben, byddwn yn dadansoddi'r ymatebion a dderbyniwyd gennym a byddwn yn rhoi ystyriaeth i'r ymatebion wrth ystyried y canllaw terfynol yn ystod gwanwyn 2017.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion yr ydym yn eu derbyn ac esboniad o'r penderfyniadau a wnaed. Gallwch weld hyn ar ein gwefan www.pharmacyregulation.org

Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn mewn nifer o wahanol ffyrdd. Gallwch lenwi'r holiadur ar ddiwedd y ddogfen hon neu fynd i www.pharmacyregulation.org/thresholdconsultation a llenwi fersiwn ar-lein yno.

Os ydych yn llenwi'r holiadur yn y ddogfen hon, anfonwch ef at:

consultations@pharmacyregulation.org gyda'r pwnc 'Ymgynghoriad ar feini prawf trothwy diwygiedig'

neu ei bostio atom yn:

Consultation on revised threshold criteria response

Policy & Standards Team

General Pharmaceutical Council

25 Canada Square

London E14 5LQ

Sylwadau ar y broses ymgynghori ei hun

Os oes gennych bryderon neu sylwadau am y broses ymgynghori, anfonwch hwy at:

feedback@pharmacyregulation.org

neu postiwch hwy atom yn:

Governance Team

General Pharmaceutical Council

25 Canada Square

London E14 5LQ

Peidiwch ag anfon ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad hwn.

Cefndir: cymhwyster i ymarfer ac ymchwiliadau

1. Mae gweithiwr fferyllol proffesiynol yn 'gymwys i ymarfer' pan fydd ganddo'r sgiliau, gwybodaeth, cymeriad, ymddygiad ac iechyd sydd eu hangen i wneud ei waith yn ddiogel ac effeithiol. Golyga hyn gynnal safonau cymhwyster priodol, gan arddangos cymeriad da, a hefyd dilyn egwyddorion arfer da yn ein safonau, canllawiau a chynghor.
2. Pan fo pryderon y gallai gweithiwr fferyllol proffesiynol fod wedi methu â chyrraedd safonau disgwylid, efallai y cwestiynir ei gymhwyster i ymarfer. Gall hyn fod am nifer o resymau, yn cynnwys camymddwyn, perfformiad diffygiol, afiechyd neu gollfarn neu rybudd am dramgwydd troseddol. Gall hyn arwain at bryder yn cael ei fynegi wrth y CFC. Ceir mwy o wybodaeth am fynegi pryderon a sut yr ydym yn delio â hwy yma: **www.pharmacyregulation.org/raising-concerns**
3. Yn fyr, mae gennym y grym i ymchwilio pryderon ynglŷn â fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol. Rydym yn adolygu'n ofalus ac yn asesu'r holl bryderon a fynegir wrthym, ac rydym yn ystyried a oes angen i ni ddechrau ymchwiliad. Os yw'r pryder yn rhywbeth y gallwn ddelio ag ef ein hunain, byddwn yn cynnal ymchwiliad. Unwaith ein bod wedi gorffen ein hymholiadau, a bod gennym y wybodaeth sydd ei hangen arnom, byddwn yn penderfynu a ddylid atgyfeirio'r achos i'r pwyllgor ymchwilio neu a oes unrhyw ganlyniad arall yn briodol yn yr amgylchiadau.
4. Fel un rhan o'r broses gwneud penderfyniadau hon defnyddiwn 'feini prawf trothwy'. Rydym yn defnyddio'r meini prawf trothwy i benderfynu a ddylid atgyfeirio'r pryder i'r pwyllgor ymchwilio.

Pam ein bod yn adolygu'r meini prawf trothwy

5. Rydym wedi bod yn defnyddio'r meini prawf trothwy presennol ers 2010 ac mae'n briodol eu hadolygu o bryd i'w gilydd er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn dal yn addas at y diben. Mae hyn hefyd yn rhan o'n hadolygiad ehangach o'n holl ganllawiau gwneud penderfyniadau statudol. Er enghraifft, yn ddiweddar rydym wedi adolygu'r canllaw ar gyfer ein pwyllgorau ymchwilio a chymhwyster i ymarfer.
6. Rheswm arall dros adolygu'r meini prawf trothwy yw eu bod wedi'u cysylltu i'r saith egwyddor a amlinellir yn y safonau ar ymddygiad, moesegau a pherfformiad¹ y mae'n rhaid i bob gweithiwr fferyllol proffesiynol gadw atynt. **Gallwch weld y meini prawf a'r canllawiau presennol yma.** Byddwn yn cyflwyno safonau newydd ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol yn 2017 ac mae angen i ni wneud yn siŵr bod y meini prawf yn ystyried y safonau newydd hyn. Rydym yn cynnig cyflwyno'r meini prawf newydd ar yr un adeg ag y byddwn yn cyflwyno'r safonau newydd ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol ym mis Mai 2017.
7. Yn olaf, cefnogir y meini prawf trothwy diwygiedig gan wybodaeth i esbonio ein gweithdrefn ymchwilio.
8. Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar y meini prawf trothwy diwygiedig a sut y byddwn yn eu defnyddio.

¹http://www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/standards_of_conduct_ethics_and_performance_july_2014.pdf

Newidiadau allweddol

9. Rydym yn cynnig chwe maen prawf ym meysydd ymddygiad ac iechyd. Bydd y rhain yn disodli'r 15 maen prawf presennol a restrir o dan saith egwyddor y safonau

presennol ar gyfer ymddygiad, moesegau a pherfformiad. Mae'r meini prawf presennol wedi'u cynnwys isod fel y gellir cymharu.

Y meini prawf trothwy presennol

Ni ddylid atgyfeirio achosion i'r pwyllgor ymchwilio oni bai bod un o'r datganiadau canlynol yn wir:

Egwyddor 1: Gwneud cleifion yn bryder cyntaf i ni

Mae tystiolaeth bod ymddygiad neu berfformiad y cofrestrai wedi achosi niwed cymedrol neu ddifrifol neu farwolaeth, y gellid ac y dylid fod wedi'i osgoi.

Mae tystiolaeth bod y cofrestrai wedi ymdrechu'n fwiadol i achosi niwed i gleifion a'r cyhoedd neu eraill.

Mae tystiolaeth bod y cofrestrai wedi bod yn anystyriol o ran diogelwch a lles pobl eraill.

Egwyddor 2: Defnyddio eich barn broffesiynol er budd cleifion a'r cyhoedd

Mae tystiolaeth bod y cofrestrai wedi rhoi ei fudd ei hun, neu fudd trydydd parti, o flaen budd ei gleifion.

Mae tystiolaeth bod y cofrestrai yn feius wedi methu â gweithredu pan fo angen er mwyn sicrhau diogelwch cleifion.

Egwyddor 3: Dangos parch tuag at eraill

Mae tystiolaeth bod y cofrestrai wedi methu â pharchu hawliau dynol cleifion, neu wedi dangos yn ei ymddygiad agweddau sy'n anghydnaws â chofrestriad fel gweithiwr fferyllol proffesiynol.

Mae tystiolaeth bod y cofrestrai wedi methu â chynnal ffiniau proffesiynol priodol o ran ei berthynas â chleifion a/neu eraill.

Egwyddor 4: Annog cleifion a'r cyhoedd i gyfranogi mewn penderfyniadau am eu gofal

Mae tystiolaeth bod y cofrestrai wedi niweidio neu roi mewn perygl sylweddol fudd gorau cleifion trwy fethu â chyfathrebu'n briodol gyda chleifion a phobl eraill.

Egwyddor 5: Datblygu eich gwybodaeth a chymhwyster proffesiynol



Mae tystiolaeth bod y cofrestrai wedi ymarfer y tu allan i'w gymhwyster presennol.

Mae tystiolaeth bod y cofrestrai wedi methu â chynnal ei wybodaeth a sgiliau mewn maes sy'n berthnasol i'w ymarfer.

Mae tystiolaeth ynglŷn ag ymddygiad sy'n debygol o danseilio hyder y cyhoedd yn y proffesiwn yn gyffredinol neu beryglu diogelwch claf, os na chaiff ei herio gan y corff rheoleiddio.

Egwyddor 6: Bod yn onest a dibynadwy

Mae tystiolaeth bod y cofrestrai wedi ymddwyn yn anonest.

Mae tystiolaeth bod y cofrestrai wedi ymddwyn mewn modd sy'n debygol o danseilio hyder y cyhoedd yn y proffesiwn yn gyffredinol, os na chaiff ei herio gan y corff rheoleiddio.

Egwyddor 7: Cymryd cyfrifoldeb am eich arferion gweithio

Mae tystiolaeth bod y cofrestrai wedi ymarfer mewn modd a oedd yn systematig anniogel, neu wedi caniatáu neu annog eraill i wneud hynny, lle bod ganddo ef neu hi gyfrifoldebau i sicrhau system weithio ddiogel.

Mae tystiolaeth o iechyd corfforol neu feddyliol anffafriol sy'n amharu ar allu'r cofrestrai i ymarfer yn ddiogel neu'n effeithiol. Os oes gan y Cofrestrydd amheuaeth ynglŷn ag a yw'r meini prawf uchod wedi eu bodloni, dylai atgyfeirio'r achos i'r pwyllgor ymchwilio.

Meini prawf trothwy diwygiedig drafft

Rhagymadrodd

- 1.1 Mae Gorchymyn Fferyllol 2010 ('y Gorchymyn') yn cydnabod bod rheoleiddio pwrpasol a chymesur yn golygu nad ydym yn atgyfeirio honiadau yn awtomatig neu'n ddiwahân i'r pwyllgor ymchwilio. Mae'r Gorchymyn yn caniatáu i'r cyngor ddiffinio 'meini prawf trothwy' y mae'n rhaid i'r cofrestrydd, a phobl a ddirprwyir gan y cofrestrydd, eu defnyddio i benderfynu a ddylid atgyfeirio'r achos i'r pwyllgor ymchwilio.
- 1.2 Mae Erthygl 52(2)(a) Gorchymyn Fferylliaeth 2010 yn dweud na ddylid atgyfeirio honiadau yr amharwyd ar gymhwyster gweithiwr fferyllol proffesiynol i ymarfer i'r pwyllgor ymchwilio os yw'r honiad o fath a nodir yn y meini prawf trothwy na ddylid atgyfeirio.
- 1.3 Mae'r ddogfen hon yn nodi beth yw'r meini prawf trothwy hynny a sut y byddwn yn eu cymhwyso.

Y meini prawf trothwy a sut y byddwn yn eu cymhwyso

- 1.4 Un rhan o'r broses gwneud penderfyniadau yw'r meini prawf trothwy, ac fe'u cymhwysir pan ddaw ymchwiliad i ben. Mekanwaith syml ydyw sy'n cynorthwyo'r cofrestrydd i benderfynu a ddylid atgyfeirio pryder i'r pwyllgor ymchwilio. Mae'r meini prawf yn sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau cymesur, teg a chyson yn ystod pob ymchwiliad ac mai dim ond achosion priodol a atgyfeirir i'r pwyllgor ymchwilio.
- 1.5 Pan fyddwn yn gorffen ein hymholiadau byddwn yn adolygu'r dystiolaeth sydd gennym ac yn penderfynu ar y camau priodol. Dylid ond atgyfeirio achos i'r pwyllgor ymchwilio pan mai hwn yw'r cam gweithredu priodol a chymesur, gan roi ystyriaeth i'r meini prawf trothwy.
- 1.6 **Dyma'r meini prawf trothwy. Ni** fydd y cofrestrydd yn atgyfeirio achos i'r pwyllgor ymchwilio os:

Ymddygiad

- nad yw'n golygu perygl gwirioneddol neu bosibl i ddiogelwch cleifion neu'r cyhoedd
- nad yw wedi tanseilio, a'i fod yn annhebygol o danseilio, hyder yn y proffesiwn fferyllol
- na fu methiant difrifol a chyson i fodloni unrhyw rai o'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, ac
- nad yw'n dangos na ellir dibynnu ar onestrwydd neu uniondeb y cofrestrai mwyach

Iechyd

- nid oes hunan-niwed neu berygl o hunan-niwed, ac
 - nid oes perygl neu niwed i gleifion a'r cyhoedd
- 1.7 Wrth ystyried achos yn erbyn y meini prawf bydd y cofrestrydd yn rhoi ystyriaeth i ymddygiad a gweithredoedd y cofrestrai. Bydd hyn yn cynnwys a yw'r cofrestrai wedi ymddwyn yn

fyrbyyll neu'n fwriadol, a yw'n fater sy'n ailadrodd ac a yw'r cofrestrai wedi dangos dirnadaeth neu wedi gweithredu'n agored a gonest.

- 1.8 Fel arfer ni chaiff yr achos ei atgyfeirio i'r pwyllgor ymchwilio os bodlonir yr **holl** feini prawf trothwy a gellir ei gau heb unrhyw weithredu pellach neu gydag adborth ysgrifenedig yn cael ei roi i'r cofrestrai.
- 1.9 Os na fodlonir unrhyw rai o'r meini prawf trothwy, a bod yr achos yn un y gellir ei ystyried ar gyfer ei atgyfeirio i'r pwyllgor ymchwilio, yna bydd y cofrestrydd yn ystyried budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylai ddefnyddio ei ddisgresiwn ai peidio i atgyfeirio i'r pwyllgor ymchwilio. Rhestrir ystyriaethau budd y cyhoedd isod.

Ystyriaethau budd y cyhoedd

- 1.10 Wrth asesu yn erbyn y meini prawf, bydd y cofrestrydd yn ystyried budd ehangach y cyhoedd². Mae ystyriaethau budd y cyhoedd yn cynnwys:
 - diogelu'r cyhoedd
 - cynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn
 - cynnal safonau ymddygiad priodol
- 1.11 Mae'r ystyriaeth budd y cyhoedd yn rhan bwysig o'r fframwaith gwneud penderfyniadau. Gall y cofrestrydd hefyd ystyried y canlynol:
 - a yw'r cofrestrai wedi dangos edifeirwch neu ddirnadaeth, ac wedi dysgu o'r digwyddiad
 - a yw'r cofrestrai wedi cymryd camau 'adferol', er enghraifft hyfforddiant neu newid yn ei ymarfer
 - a oes cyngor blaenorol wedi ei roi i'r cofrestrai ynglŷn â'r un mater neu faterion tebyg
 - a yw'r penderfyniad yn ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd, ac
 - a yw atgyfeirio'r mater i'r pwyllgor ymchwilio yn ymateb cymesur
- 1.12 Caiff pwysigrwydd unrhyw rai o'r sefyllfaoedd a restrir yn 1.11 eu hystyried yng nghyd-destun yr achos a difrifoldeb y pryderon yn eu cyfanrwydd. Os cred y cofrestrydd ei fod er budd y cyhoedd i atgyfeirio'r achos, yna caiff ei atgyfeirio. Os nad ydyw, ni atgyfeirir yr achos i'r pwyllgor ymchwilio, a gellir ei gau heb unrhyw weithredu pellach neu gydag adborth ysgrifenedig yn cael ei roi i'r cofrestrai.

² Nodir y prawf budd y cyhoedd mewn cyfraith achos yn cynnwys CHRE v Nursing and Midwifery Council (Grant); Marinovich v General Medical Council [2002]; Bolton v The Law Society [1994]; R (on the application of Abrahams) v GMC [2004].

Sut y byddwn yn defnyddio eich ymatebion

Yn dilyn yr ymgynghoriad byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r hyn a glywsom. Os ydych chi'n ymateb fel unigolyn preifat ni fyddwn yn defnyddio eich enw nac yn cyhoeddi ymatebion unigolion.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, byddwn yn rhestru enw eich sefydliad ac efallai y byddwn yn cyhoeddi eich ymateb yn llawn oni bai eich bod yn dweud wrthym am beidio. Os ydych am i unrhyw ran o'ch ymateb aros yn gyfrinachol, dylech esbonio pam y credwch chi fod y wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni yn gyfrinachol.

Efallai y bydd angen i'r CFFC ddatgelu gwybodaeth o dan y cyfreithiau sy'n ymwneud â mynediad at wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 fel arfer). Os ydych chi'n gofyn i ni gadw rhan o'ch ymateb yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn yn ddifrifol ac yn ceisio ei barchu ond ni allwn warantu y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob amgylchiadau.

Os bydd eich ymateb wedi'i gwmpasu gan wadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ni fydd hyn ynddo'i hun yn rhwymol ar y CFFC.

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Ymateb i'r ymgynghoriad ar feini prawf trothwy diwygiedig

Ar gyfer sefydliadau

Os ydych am i unrhyw ran o'ch ymateb aros yn gyfrinachol, esboniwch pam eich bod yn credu bod y wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Ni allwn warantu y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob amgylchiadau.

- A fyddech cystal â chadw rhannau o fy ymateb yn gyfrinachol

Dywedwch wrthym os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â chyhoeddi unrhyw ran o'ch ymateb ac esboniwch pa rannau yr ydych am i ni eu cadw'n gyfrinachol:

Cwestiynau cefndir

Yn gyntaf, hoffem ofyn i chi am ychydig o wybodaeth gefndir. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i ddeall barn grwpiau, unigolion neu sefydliadau penodol a bydd yn ein galluogi i ymateb yn well i'r farn honno.

A ydych chi'n ymateb:

- fel unigolyn – ewch i adran A
- ar ran sefydliad – ewch i adran B

Adran A – Ymateb fel unigolyn

Dywedwch wrthym beth yw eich:

enw:

cyfeiriad:

e-bost:

Lle ydych chi'n byw?

- Lloegr
 - Yr Alban
 - Cymru
 - Gogledd Iwerddon
 - arall (rhowch fanylion)
-

A ydych chi'n ymateb fel:

- aelod o'r cyhoedd
 - gweithiwr fferyllol proffesiynol neu berchennog fferyllfa – ewch i adran A1
 - hyfforddai cyn-gofrestru
 - myfyriwr
 - arall (rhowch fanylion)
-

Adran A1 – Gweithwyr fferyllol proffesiynol

A ydych chi'n:

- fferyllydd
- technegydd fferyllol
- perchennog fferyllfa

Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio orau'r maes yr ydych yn gweithio'n bennaf ynddo:

- fferyllfa gymunedol
 - fferyllfa ysbyty
 - sefydliad gofal sylfaenol
 - addysg a hyfforddiant fferylliaeth
 - y diwydiant fferyllol
 - arall (rhowch fanylion)
-

Adran B – Ymateb ar ran sefydliad

Dywedwch wrthym beth yw eich:

enw:

teitl eich swydd:

sefydliad:

cyfeiriad:

e-bost:

enw cyswllt ar gyfer ymholiadau:

Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio orau eich sefydliad :

- sefydliad sy'n cynrychioli cleifion neu'r cyhoedd
- sefydliad sy'n cynrychioli gweithwyr fferyllol proffesiynol neu'r sector fferyllol
- fferyllfa annibynnol (1-5 fferyllfa)
- fferyllfa luosog (6 neu ragor o fferyllfeydd)
- sefydliad neu grŵp GIG
- sefydliad ymchwil, addysg neu hyfforddiant
- arall (rhowch fanylion)

Rhowch ddisgrifiad byr o'r hyn mae eich sefydliad yn ei wneud a'i ddiddordeb yn yr ymgynghoriad penodol hwn:

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Mae gennym ddiddordeb penodol yn eich barn ar y pwyntiau canlynol, er ein bod yn croesawu eich sylwadau ar unrhyw faterion yr ydych am eu codi ynglŷn â'r meini prawf trothwy.

Cyffredinol

1. Mae Gorchymyn Fferylliaeth 2010 yn caniatáu i ni gael meini prawf trothwy, sy'n ein cynorthwyo i benderfynu a ddylid atgyfeirio achos i'r pwyllgor ymchwilio. A ydych chi'n meddwl bod y meini prawf trothwy yn glir ac yn hawdd eu deall?

Ydw Nac ydw

Eglurwch pam.

2. Defnyddir y meini prawf gan wneuthurwyr penderfyniadau o fewn y CFFC sy'n rhan mewn ymchwilio pryderon er mwyn penderfynu a ddylid atgyfeirio'r achos i'r pwyllgor ymchwilio. A ydych chi'n meddwl bod sut yr ydym yn cymhwyso'r meini prawf yn ymarferol yn glir?

Ydw Nac ydw

Eglurwch pam.

3. Mae'r meini prawf hyn yn rhoi fframwaith i ni er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn gwneud penderfyniadau cymesur, teg a chyson ym mhob ymchwiliad. A ydych chi'n meddwl y bydd y meini prawf trothwy arfaethedig yn gwneud yn siŵr bod yr achosion cywir yn cael eu hatgyfeirio i'r pwyllgor ymchwilio?

Ydw Nac ydw

Eglurwch pam.

Sylwadau eraill

4. A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y meini prawf arfaethedig?

Dadansoddiad cydraddoldeb

Credwn y dylai'r materion y mae'r meini prawf yn canolbwyntio arnynt gael goblygiadau cadarnhaol i bobl. Bydd y meini prawf yn cefnogi gwneud penderfyniadau da yn erbyn set o feini prawf gwrthrychol a dyma un ffordd o liniaru perygl tuedd. Nid ydym wedi nodi unrhyw oblygiadau a fyddai'n gwahaniaethu yn erbyn neu'n rhoi unrhyw unigolion neu grwpiau dan anfantais yn fwriadol.

5. A oes unrhyw agweddau o'r meini prawf arfaethedig a allai gael effaith negyddol ar gleifion, aelodau o'r cyhoedd, fferyllwyr, technegwyr fferyllol, neu unrhyw grwpiau eraill?

Oes Nac oes

6. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar effaith bosibl y meini prawf?

Monitro cydraddoldeb

Yn y CFFC rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth a bod yn gynhwysol yn ein holl waith fel rheoleiddiwr gweithwyr iechyd proffesiynol, a gwneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb.

Rydym eisiau gwneud yn siŵr fod gan bawb gyfle i ymateb i'n hymgyngoriad ar safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol. Bydd y ffurflen monitro cydraddoldeb hon yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ni fel y gallwn wirio bod hyn yn digwydd.

Nid oes raid i chi ei llenwi, ac ni fydd eich atebion yma yn cael eu cysylltu i'ch ymatebion i'r ymgynghoriad.

Beth yw eich rhyw?

Ticiwch un blwch

- Gwryw
- Benyw
- Arall

Beth yw eich cyfeiriadedd rhywiol?

Ticiwch un blwch

- Heterorywiol/syth
- Menyw hoyw /lesbiad
- Dyn hoyw
- Deurywiol
- Arall
- Gwell gennyf beidio dweud

A ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?

Diffinnir anabledd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 fel "amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar allu person i wneud gweithgareddau arferol bob dydd". Ticiwch un blwch.

- Ydw
- Nac Ydw
- Gwell gennyf beidio dweud

Beth yw eich grŵp oedran?

Ticiwch un blwch

- 16 – 24 oed
- 25 – 34 oed
- 35 – 44 oed
- 45 – 54 oed
- 55 – 64 oed
- 65 + oed

Beth yw eich grŵp ethnig?

Dewiswch y blwch priodol i ddynodi eich cefndir diwylliannol. Ticiwch un blwch.

Gwyn

- Prydeinig
- Gwyddelig
- Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig

- Cefndir gwyn arall (llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

Du neu Ddu Prydeinig

- Du Caribiaidd
- Du Affricanaidd
- Cefndir du arall (llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

Cymysg

- Gwyn a Du Caribiaidd
- Gwyn a Du Affricanaidd
- Du ac Asiaidd
- Unrhyw gefndir cymysg arall (llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig

- Indiaidd
- Pacistani
- Bangladeshi
- Asiaidd arall (llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

Tsieinaidd neu Tsieinaidd Prydeinig

- Tsieinaidd neu Tsieinaidd Prydeinig
- Grŵp ethnig arall (llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

Arabaidd

- Arabaidd

Arall

- Gwell gennyf beidio dweud
- Unrhyw gefndir ethnig arall (rhoch fwy o wybodaeth yn y blwch isod)

Beth yw eich crefydd?

Ticiwch un blwch

- Bwdhydd
- Cristion
- Hindŵ
- Iddew
- Mwslim
- Sîc
- Dim
- Arall (rhoch ragor o wybodaeth yn y blwch isod)
- Gwell gennyf beidio dweud

Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad wedi'u coladu

1. Mae Gorchymyn Fferylliaeth 2010 yn caniatáu i ni gael meini prawf trothwy, sy'n ein cynorthwyo i benderfynu a ddylid atgyfeirio achos i'r pwyllgor ymchwilio. A ydych chi'n meddwl bod y meini prawf trothwy yn glir ac yn hawdd eu deall?
2. Defnyddir y meini prawf gan wneuthurwyr penderfyniadau o fewn y CFfC sy'n rhan mewn ymchwilio pryderon er mwyn penderfynu a ddylid atgyfeirio'r achos i'r pwyllgor ymchwilio. A ydych chi'n meddwl bod sut yr ydym yn cymhwyso'r meini prawf yn ymarferol yn glir?
3. Mae'r meini prawf hyn yn rhoi fframwaith i ni er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn gwneud penderfyniadau cymesur, teg a chyson ym mhob ymchwiliad. A ydych chi'n meddwl y bydd y meini prawf trothwy arfaethedig yn gwneud yn siŵr bod yr achosion cywir yn cael eu hatgyfeirio i'r pwyllgor ymchwilio?
4. A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y meini prawf arfaethedig?
5. A oes unrhyw agweddau o'r meini prawf arfaethedig a allai gael effaith negyddol ar gleifion, aelodau o'r cyhoedd, fferyllwyr, technegwyr fferyllol, neu unrhyw grwpiau eraill?
6. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar effaith bosibl y meini prawf?



Cyngor Fferyllol Cyffredinol

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2016

Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square, Llundain E14 5LQ
F 020 3713 8000
E info@pharmacyregulation.org

 @TheGPhC
 TheGPhC
 /company/general-pharmaceutical-council
www.pharmacyregulation.org